| Ymyrraeth | Cymunedau Cryf a Gwydn | | | Gwyrdd | Cynnydd yn unol â'r targed ar hyn o bryd |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Oren | Cynnydd heb fwrw'r targed, ond yn gyraeddadwy o hyd |
| Arwain | Chris Dawson-Morris / CS Carl Williams | Cyfnod Adrodd | Chwarter 2 2022-23 | Coch | Cynnydd ymhell o fwrw'r targed |

## Prif Gyflawniadau a Llwyddiannau

Rhwydweithiau Llesiant Integredig - Mae Cydweithredfa Pilgwenlli wedi dod â phobl ynghyd drwy amrywiaeth o raglenni Llesiant gan gynnwys creu Rhandir, Digwyddiad Iechyd a Llesiant, Teithiau tywys ar droed i aelodau 50+ y gymuned, Gwefan Pill Connects.

Mae Cydweithredfa Ringland hefyd wedi cryfhau a hyrwyddo digwyddiadau amrywiol gan gynnwys rhaglen hanner tymor o ddigwyddiadau yn yr Hyb Cymunedol, gerddi cymunedol yn Sterndale Bennet a Cecil Sharp Road, gweithgareddau lles mewn coetiroedd drwy Goed Lleol a grŵp sgyrsiau cymunedol.

Lansiwyd borth gwe Eich Lles Eich Casnewydd i hyrwyddo gweithgareddau, rhaglenni a chyfleoedd ledled Casnewydd.

Dechreuodd y drydedd raglen gyllidebu gyfranogol fawr i gryfhau cymunedau gyda chyllid partneriaeth gwerth £300k wedi'i ddyrannu. Mae rhwydwaith cymorth i rai dderbyniodd grantiau yn y gorffennol wedi'i sefydlu er mwyn hyrwyddo cydweithio pellach ac adeiladu capasiti.

Uwchgynllun Pilgwenlli - Mae The Urbanists a Mela Cymru wedi cwblhau cyfres o sgyrsiau gydag ystod o randdeiliaid ym Mhilgwenlli – gan gynnwys Pill Unity, y fforwm busnesau newydd, Cymdeithas Gymunedol Yemenïaidd Casnewydd, a phob sefydliad angor – i sefydlu gweledigaeth y gymuned ar gyfer yr ardal ac i lywio'r uwchgynllun.

Mae cynllun peilot Rhaglen Drawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar yn y Betws yn datblygu rhaglen waith gydweithredol gyda theuluoedd â phlant sy'n y blynyddoedd cynnar, fel bo'r ymweliadau â chartrefi gan wasanaethau Iechyd a'r Awdurdodau Lleol yn unol. Bydd hyn yn arwain at lai o weithwyr proffesiynol yn ymweld a gweithiwr allweddol yn cydlynu gwasanaethau, gydag asiantaethau'n rhannu cofnodion, a darparu gwasanaethau yn seiliedig ar "yr hyn sydd bwysicaf i'r teulu".

## Cynlluniau ar gyfer y chwarter nesaf a'r dyfodol

Uwchgynllun Pilgwenlli – datblygu'r Uwchgynllun ar ôl y cam ymgysylltu â'r gymuned. Themâu cyffredin a ddaeth i'r amlwg yw mannau gwyrdd a chyhoeddus, cyfleusterau/adeiladau cymunedol, adfywio Commercial Road, cyfleusterau ieuenctid, Pilgwenlli Saffach.

Gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru i gomisiynu adolygiad o'r gweithgarwch Cyllidebu Cyfranogol. Dechrau cyd-gynhyrchu rhaglen Cyllidebu Cyfranogol 2022/23.

Prosiect Trawsnewid y Blynyddoedd Cynnar - bydd yr ardal beilot yn y Betws yn ehangu i gynnwys Malpas, gan ehangu'r dull arloesol cyn y cyflwyno arfaethedig i'r ddinas gyfan.

| Prif Risgiau / Rhwystrau i gynnydd | Statws (U/C/I) | Camau Lliniaru / Y Cymorth Sydd ei Angen |
|---|---|---|
| Allgáu digidol yn cyfyngu cyfranogiad y cymunedau yr effeithir arnynt waethaf mewn rhaglenni ymgysylltu ar-lein e.e. cyllidebu cyfranogol | Isel | Rhaglen cyllidebu cyfranogol newydd i ddychwelyd i bleidleisio wyneb yn wyneb. |